Hawdd ei Ddeall

# Ein cynllun ar gyfer gwneud y brifysgol yn lle teg a chyfartal

## Beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2024 a 2028



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Brifysgol Caerdydd**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Perthyn, Tegwch, Cyfraniad – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028**'.

**Medi 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Prifysgol Caerdydd**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**E-bost:** EDIhub@caerdydd.ac.uk

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Am y cynllun yma ........................................................... 4**

**3 Syniad Mawr ................................................................ 7**

**Ein nodau ...................................................................... 8**

Amcan 1: Gwneud yn siŵr bod y Brifysgol yn lle mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n perthyn iddi. ........................8

Amcan 2: Gwneud yn siŵr bod cyfleoedd teg i bawb gael cyflawni eu nodau. .................................................... 10


Amcan 3: Bydd ein gwaith yn gwneud y byd yn lle tecach a mwy cyfartal. ...................................................... 12

**Rhoi'r cynllun ar waith.................................................. 14**

# Am y cynllun yma





Dyma ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**.




Ein nodau ydy gwneud Prifysgol Caerdydd yn lle teg a chyfartal i bawb.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y Brifysgol yn lle:



- **Teg** – mae hyn yn meddwl bod pawb yn cael yr un cyfleoedd i wneud beth maen nhw'n gallu. Efallai bydd rhai pobl angen help ychwanegol i gael yr un cyfleoedd.



- **Amrywiol** - mae hwn yn meddwl cymysgedd o wahanol fathau o bobl. Er enghraifft, dynion a menywod, pobl ifanc a hen bobl, pobl o wahanol hil, pobl anabl a phobl sydd ddim yn anabl.



- **Cynhwysol** – mae hyn yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan a chael eu cynnwys.




- **Gwrth-hiliol** - mae hyn yn meddwl bod yn erbyn hiliaeth a chymryd camau i'w stopio.




Rhaid i ni gael y cynllun yma yn ôl y gyfraith - **Deddf Cydraddoldeb 2010**.



Y flwyddyn diwethaf, fe wnaethon ni ofyn i staff a myfyrwyr beth roedden nhw'n ei feddwl am y cynllun yma, a'r syniadau oedd gennym ni ar ei gyfer.



Fe wnaethon ni hefyd siarad â phobl yn y gymuned ac eraill am eu barn am sut fath o le roedden nhw eisiau i Brifysgol Caerdydd fod.




Rydyn ni wedi gwrando ar y safbwyntiau yma a'u defnyddio i wneud y cynllun newydd yma.




Roedd ein cynllun diwethaf yn rhedeg o 2020. Bydd yr un newydd yma yn rhedeg o 2024 tan 2028. Bydd y cynllun yma yn ein cefnogi ni i ddod yn Brifysgol rydyn ni eisiau bod.

# 3 Syniad Mawr





Mae’r cynllun yma wedi ei seilio ar 3 syniad neu thema fawr. Rydyn ni’n sôn am beth maen nhw’n ei feddwl yma:



**Cynefin** –teimlo ein bod ni’n perthyn.




**Tegwch** –bod yn deg.



**Cyfrannu** - cymryd rhan a rhoi rhywbeth yn ôl, neu wneud gwahaniaeth.

# Ein nodau




Mae ein nodau hefyd yn cael eu galw yn **Amcanion Cydraddoldeb**. Maen nhw wedi eu seilio ar y syniadau rydyn ni wedi sôn amdanyn nhw yn barod.

## Amcan 1: Gwneud yn siŵr bod y Brifysgol yn lle mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n perthyn iddi.



Rydyn ni eisiau i bobl deimlo eu bod nhw'n gallu ymddiried yn y Brifysgol. A gwybod eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi.

**Beth mae hyn yn ei feddwl:**



- Mae pobl yn cael eu trin â pharch.



- Mae gan bawb gyfle i gael eu clywed a'u cynnwys.



- Mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n perthyn i Brifysgol Caerdydd.

**Dyma rai o'r pethau y byddwn ni yn eu gwneud i gyflawni hyn:**



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n rhan o'r Brifysgol a'u bod nhw'n gallu ymddiried ynddi.
- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.
- Gwneud yn siŵr ei bod hi'n hawdd mynd o gwmpas y Brifysgol,  yn gorfforol ac ar-lein. A'i bod yn lle croesawgar.
- Gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu bod yn nhw eu hunain.
- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n dathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.
- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n agored ac yn onest am gydraddoldeb.
- Gwneud yn siŵr  bod y ffordd rydyn ni'n gweithio yn deg.
- Cefnogi unrhyw un sy'n cael eu trin yn wael neu'n annheg. A chymryd camau i stopio hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf.

## Amcan 2: Gwneud yn siŵr bod cyfleoedd teg i bawb gael cyflawni eu nodau.




Mae anghenion pawb yn cael eu hystyried ac rydyn ni'n helpu pobl i wneud eu gorau yn eu gwaith a'u hastudiaethau.

**Beth mae hyn yn feddwl:**



- Bydd myfyrwyr yn cael eu trin yn deg pwy bynnag ydyn nhw.



- Bydd gan fyfyrwyr o wahanol gefndiroedd lefelau llwyddiant tebyg. Mae ein staff yn cynrychioli gwahanol fathau o bobl o wahanol gefndiroedd.



- Mae bylchau mewn cyflogau rhwng y rhywiau yn cael eu lleihau. Mae hyn yn meddwl bod staff gwrywaidd a benywaidd ym mhob math o swydd. Ac maen nhw'n cael eu talu'n deg.



- Mae bylchau annheg eraill rhwng cyflogau'n cael eu lleihau.



- Mae gennym ni fwy o fyfyrwyr o wahanol gefndiroedd.



- Bydd safbwyntiau gwahanol yn cael eu clywed pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau. Mae cyfle cyfartal i astudio a gweithio yn Gymraeg.

**Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud i gyflawni hyn:**



- Gwneud yn siŵr bod myfyrwyr a staff o gefndiroedd gwahanol eisiau ymuno â Phrifysgol Caerdydd.
- Cefnogi anghenion ein holl fyfyrwyr.
- Gwneud yn siŵr  bod staff yn cael eu cefnogi'n gyfartal i gyflawni eu nodau.
- Lleihau bylchau rhwng cyflogau.
- Gwneud yn siŵr bod cyfleoedd i bawb ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

## Amcan 3: Bydd ein gwaith yn gwneud y byd yn lle tecach a mwy cyfartal.



Yn rhan o'r amcan yma, rydyn ni'n edrych ar sut rydyn ni'n gallu gwella cydraddoldeb y tu allan i'r Brifysgol.

**Beth mae hyn yn ei feddwl:**



Byddwn ni'n delio ag anghydraddoldeb ym mhob rhan o'n gwaith, gan gynnwys ein hymchwil, wrth addysgu a'r ffordd rydyn ni'n rhedeg y Brifysgol.



Byddwn ni'n gweithio gydag eraill i ddelio â phroblemau lleol ac yn y byd ehangach.



Byddwn ni'n gwneud ein gwaith yn deg ac yn **gynaliadwy**. Mae **cynaliadwy'n** meddwl gweithio mewn ffyrdd a fydd yn para am amser hir ac sy'n dda i'r blaned.

**Dyma rai o'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud i gyflawni hyn:**



- Defnyddio ein hymchwil i helpu i wneud y byd yn lle tecach.
- Gweithio gyda chymunedau lleol i wneud Caerdydd a de Cymru yn lle tecach.
- Addysgu ein myfyrwyr i'w helpu i weithredu ar anghydraddoldeb nawr ac yn y dyfodol.
- Meddwl am y blaned a'r amgylchedd o ran sut rydyn ni'n rhedeg y Brifysgol.


# Rhoi’r cynllun ar waith




Ein Dirprwy Is-Ganghellor sy’n gyfrifol am y cynllun yma.



Mae’r Brifysgol gyfan yn gyfrifol am ei roi ar waith. Ond bydd adran o’r enw **Hyb Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** yn ei rheoli.




Byddwn ni’n cyhoeddi adroddiad ar ddiwedd mis Mawrth bob blwyddyn.  Bydd hyn yn sôn am beth rydyn ni wedi’i gyflawni tuag at ein cynllun.




Byddwn ni hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am staff, myfyrwyr a chydraddoldeb.